# Cefnogi gweithle iach a diogel

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi gweithle iach a diogel. Mae hyn yn cynnwys cefnogi'r gwaith o gynnal iechyd a diogelwch yn y gweithle a chyfrannu at arferion gweithio sy'n iach ac yn ddiogel.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun, unigolion ac eraill i gefnogi gweithle iach a diogel
2. dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg
3. sicrhau eich hylendid personol, eich iechyd a'ch ymddangosiad i gefnogi gweithle iach a diogel
4. rheoli eich iechyd meddwl a'ch llesiant meddyliol a gofyn am gymorth ar gyfer pryderon yn y gweithle
5. cyfrannu at arferion diogelwch yn y gweithle
6. defnyddio dulliau adnabod yn y gweithle a bod yn ymwybodol o bwy sydd yno
7. nodi peryglon iechyd a diogelwch mewn amgylcheddau gwaith
8. asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheryglon iechyd a diogelwch
9. dilyn prosesau'r gweithle i ymdrin â risgiau a nodwyd yn unol â'ch rôl, eich cyfrifoldebau a'ch lleoliad
10. cynorthwyo unigolion neu eraill sy'n ymwneud â sefyllfaoedd peryglus a sicrhau unrhyw gymorth pellach
11. cyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gyfrannu at reoli peryglon nes byddant wedi cael eu datrys neu eu trosglwyddo i rywun arall
12. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i adolygu a chytuno ar gamau i atal neu leihau peryglon pellach
13. defnyddio camau y cytunwyd arnynt ac asesiadau risg i gyfrannu at atal neu leihau peryglon
14. cyfrannu at baratoi ar gyfer argyfyngau o fewn eich maes cyfrifoldeb, yn unol â gweithdrefnau ac asesiadau risg y gweithle
15. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi gweithle iach a diogel
16. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i gefnogi gweithle iach a diogel, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. agweddau ar eich hylendid, eich iechyd a'ch ymddangosiad eich hun a all gefnogi gweithle iach a diogel
2. rôl atal a rheoli heintiau a chyfarpar diogelu personol wrth gefnogi gweithle iach a diogel
3. sut mae cael cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith a'r effaith y gall hyn ei chael
4. achosion cyffredin straen yn y gweithle
5. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi gweithle iach a diogel
6. y mathau o ddyfeisiau ac adnoddau digidol a all gefnogi gweithle iach a diogel
7. y gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'r asesiadau risg i'w dilyn yn y gweithle
8. rôl asesiadau risg o ran rheoli risgiau a chefnogi unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar asesiadau risg iechyd a diogelwch
10. gwahanol fathau o beryglon iechyd a diogelwch a all godi yn eich gweithle
11. gwahanol fathau o argyfyngau a all godi yn eich gweithle
12. sut mae eich rôl, eich cyfrifoldebau a'ch lleoliad yn dylanwadu ar y ffordd rydych yn delio â sefyllfaoedd peryglus
13. sut mae asesu a lleihau risgiau mewn sefyllfaoedd peryglus
14. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol mewn sefyllfaoedd brys a pheryglus
15. ffyrdd o gynorthwyo unigolion ac eraill yn ystod sefyllfaoedd brys a pheryglus
16. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi gweithle iach a diogel
17. eich cyfrifoldeb i gadw chi eich hun, unigolion ac eraill yn ddiogel yn y gweithle
18. dylanwad diwylliant a chefndir ar ganfyddiadau o beryglon iechyd a diogelwch
19. sut mae monitro pwy sydd yn y gweithle a ble maen nhw
20. ystyriaethau allweddol wrth weithio ar eich pen eich hun yn unol â gweithdrefnau'r gweithle
21. y mathau o ymarferion argyfwng a pha mor aml y cânt eu cynnal, a sut rydych chi'n cyfrannu at baratoi ar gyfer argyfyngau
22. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi gweithle iach a diogel
23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau

perthnasol ar gyfer cefnogi gweithle iach a diogel
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi gweithle iach a diogel
25. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gefnogi gweithle iach a diogel
26. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi gweithle iach a diogel, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gefnogi gweithle iach a diogel

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Cefnogi gweithle iach a diogel

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Iach, Diogel, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |